Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 16.11.2020

## Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud dal ar agor

Er bod elfen Grant Datblygu Busnes y Gronfa Cadernid Economaidd wedi'i rhewi, nid yw'r oedi hwn yn effeithio ar y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud. Mae Grantiau Ardrethi Annomestig y Cyfyngiadau a Grant Dewisol y Cyfyngiadau a weinyddir gan yr Awdurdodau Lleol yn parhau ar agor hyd at 5:00pm 20 Tachwedd 2020. Bydd sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol yn cael eu darparu, a bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir yn cyflymu'r broses. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

## Taliad Cymorth Hunanynysu

Os ydi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn rhoi gwybod i chi bod rhaid hunanynysu, mae'n bosib bod gennych hawl i gymorth ariannol. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Budd-daliadau-a-grantiau/Taliad-Cymorth-Hunanynysu.aspx

# Canllawiau Newydd ar y Cyfnod Pontio

Mae gwybodaeth cynhwysfawr ar gael ar gyfer nifer o sectorau sydd angen paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio wrth i ni adael yr UE ddiwedd y flwyddyn. I gael gwybodaeth am drafnidiaeth awyr, môr, ffyrdd a rheilffyrdd, trwyddedau cludo nwyddau rhyngwladol, grwpiau allforio o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/canllawiau-newydd-ar-y-cyfnod-pontio

- Newyddlen Cyfnod Pontio UE Bwyd a Diod Cymru

Gyda llai na 50 diwrnod i fynd cyn diwedd y Cyfnod Pontio, mae Bwyd a Diod Cymru yn rhannu rhywfaint o'r wybodaeth allweddol efo chi am yr hyn y mae angen ichi ei wneud rŵan i'ch helpu i baratoi eich busnes ar gyfer Ionawr 2021. Ar gyfer eu newyddlen diweddaraf, ewch i:

https://bit.ly/NewBwydDiod13Tach2020

# Cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19: offeryn gwirio pwy sy'n gymwys

Gwiriwch a ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19 i staff gofal cymdeithasol.

https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19-offeryn-gwirio-pwy-syn-gymwys

# Gwasanaeth atgoffa drwy E-bost Tŷ'r Cwmnïau

Mae Tŷ'r Cwmnïau'n cysylltu â phob cwmni sy'n derbyn eu negeseuon atgoffa papur ar hyn o bryd. Mae'r llythyr yn egluro eu bod wedi rhoi'r gorau i'r gwasanaeth papur ac yn annog pob cwmni i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth atgoffa drwy e-bost. Ewch i:

https://bit.ly/36sP9qE

## Aerdymheru ac awyru yn ystod y pandemig coronafeirws

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i gyflogwyr sicrhau cyflenwad digonol o awyr iach yn y gweithle ac nid yw hyn wedi newid. Gall awyru da helpu i leihau'r risg o ledaenu coronafeirws yn y gweithle. Mae'n bwysig canolbwyntio ar wella awyru'n gyffredinol, drwy awyr iach neu systemau mecanyddol yn ddelfrydol. Ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/aerdymheru-ac-awyru-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws

## Dydd Sadwrn y Busnesau Bach DU (Small Business Saturday UK) 5 Rhagfyr 2020

Erbyn hyn, yn ei wythfed flwyddyn, mae ymgyrch busnesau bach mwyaf llwyddiannus y DU, Dydd Sadwrn y Busnesau Bach DU (Small Business Saturday UK), yn ôl unwaith eto. Bydd yr ymgyrch ar lawr gwlad, anfasnachol, sy'n dathlu llwyddiant busnesau bach, yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn 5 Rhagfyr eleni ac anogir defnyddwyr hefyd i barhau i gefnogi busnesau bach dros yr hyn a fydd yn aeaf anodd i lawer. I gael gwybodaeth am sut i gymryd rhan ac i lawrlwytho logos yn y Gymraeg a Saesneg, i'w defnyddio ar eich gwefan neu gyfryngau cymdeithasol, ewch i:

https://smallbusinesssaturdayuk.com/

## Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn lansio gweminarau'r Gaeaf am ddim i fusnesau

Mae'r hyrwyddwr cymorth digidol Cyflymu Cymru i Fusnesau wedi lansio ei raglen gweminarau'r gaeaf am ddim sy'n cynnwys: cyfryngau cymdeithasol, marchnata digidol, SEO, offer ar-lein, seiberddiogelwch, gwefannau, a rhagor.

Cewch y sgiliau digidol a’r hyder sydd eu hangen arnoch i helpu i lywio’r amseroedd ansicr hyn. Nifer o ddyddiadau, amseroedd a phynciau ar gael ar gyfer mis Rhagfyr a mis Ionawr, ewch i’r dudalen digwyddiadau a chadwch eich lle mewn gweminarau am ddim:

https://www.businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

## Camu’n uwch: Gweithio ym myd Technoleg 2020

- Dydd Mercher 18 Tachwedd 2020, 9:30am – 3:30pm

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ‘Wythnos Dechnoleg Cymru’ ym mis Gorffennaf, mae Technology Connected mewn partneriaeth â Cymru’n Gweithio, bellach yn eich gwahodd i ymuno â nhw ar gyfer digwyddiad ‘Camu’n uwch: Gweithio ym myd Technoleg 2020’ ddydd Mercher 18 Tachwedd 2020. Bydd y digwyddiad unigryw, ar-lein hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd gyrfa a hyfforddiant sydd ar gael yn y sector technoleg yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://technologyconnected.net/events/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru